OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 291

# Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019

## RHAN 14

Diwygiad amrywiol

**Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005**

**43.**—(1) Mae Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5—

(a) ar ôl paragraff (1)(b) mewnosoder—

"(bb) unigolyn sy'n dod o fewn rheoliad 3(e) o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(**2**).";

(b) ym mharagraff (2), hepgorer y geiriau o "ond, o ran darparu" hyd at y diwedd.

(**1**) O.S. 2005/1512 (Cy. 116).
(**2**) O.S. 2019/XXX (W. XX).